# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 27 Chwefror

2024

Amser: 09.00 - 10.03

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Heledd Fychan AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau,<br>Llinos Madeley, Clerc, Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau |

| | |
|---|---|
| | Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau y Senedd<br>James Attridge, Uwch-reolwr Diogelwch |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn:

- <u>Cynnig i Atal Rheolau Sefydlog dros dro (5 munud)</u>
- <u>Dadl: Hyblygrwydd cyllidebol a gweithredu Fframwaith Ariannu'r DU (60 munud)</u> *Aildrefnwyd*
- <u>Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor) (15 munud)</u> *Aildrefnwyd*
- ~~Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Creu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc (30 munud)~~ *Gohiriwyd*
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: ~~Y~~ <u>Mis Hanes LHDTC+</u> ~~Cynllun Gweithredu~~ (30 munud)
- ~~Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd (30 munud)~~ *Gohiriwyd tan 12 Mawrth*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes

- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.00pm

**Dydd Mercher**

Cafodd y Pwyllgor Busnes wybodaeth friffio ar drefniadau diogelwch yn ymwneud â'r brotest a ddisgwylir ddydd Mercher a'r amharu posibl, gan gynnwys teithio. Cofrestrodd y Trefnydd a Jane Dodds eu pryder bod busnes a digwyddiadau'r Senedd yn parhau wyneb yn wyneb o ystyried maint y brotest a ddisgwylir a chodwyd y posibilrwydd o gadw presenoldeb ar Ystad y Senedd ar ei isafswm, a thrafodion yn cael eu cynnal ar-lein pe bai angen.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 12 Mawrth 2024**

- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd (30 munud)
- Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 (5 munud)
- Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 (5 munud)
- Cynnig i amrywio'r drefn o ystyried gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Seilwaith (Cymru) (5 munud)
- ~~Dadl: Ail Gyllideb Atodol 2023-24 (30 munud)~~ *gohiriwyd tan 13 Mawrth*

**Dydd Mercher 13 Mawrth 2024**

- ~~Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)~~ *gohiriwyd tan 20 Mawrth 2024*
- Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg (45 munud) – *wedi dwyn ymlaen o 20 Mawrth 2024*
- Dadl: Ail Gyllideb Atodol 2023-24 (30 munud)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ohirio Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 20 Mawrth i ddwyn ymlaen y Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg i 13 Mawrth.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 13 Mawrth 2024 –**

- ~~Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)~~ *Symudwyd i 12 Mawrth*

**Dydd Mercher 20 Mawrth 2024 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar Ddeiseb P-06-1367: Dylid ariannu gwaith i symud creigiau chwarel ac adfer tywod a grwynau i Draeth y Gogledd Llandudno
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Carolyn Thomas (Gogledd Cymru) (30 munud)
- Dadl Fer: Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Amserlen ar gyfer Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Trafododd y Pwyllgor Busnes amserlen y Bil a gynigiwyd gan y Llywodraeth a chytunodd:

- i gyfeirio Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) i'r Pwyllgor Biliau Diwygio er mwyn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil;
- ymgynghori â'r Pwyllgor Biliau Diwygio ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer craffu ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) a dychwelyd y mater yn y cyfarfod nesaf; a
- cytunwyd hefyd mewn egwyddor, ac yn amodol ar i'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, i gyflwyno cynnig ar ddechrau Cyfnod 2 yn gofyn am gytundeb y Senedd i drafodion Cyfnod 2 gael eu cynnal gan Bwyllgor o'r Senedd Gyfan.

### 4.2 Amserlenni Cyflym ar gyfer Biliau'r Senedd

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ar amserlenni cyflym ar gyfer Biliau'r Senedd. Nododd y Pwyllgor brofiad y ddau Fil a amlinellwyd yn y papur a gofynnodd i swyddogion ddrafftio offeryn gwneud penderfyniadau y gellid ei ddefnyddio i'w gynorthwyo i wneud penderfyniadau yn y dyfodol ar amserlenni Biliau pan fydd amserlen gyflym wedi'i chynnig.

Gofynnodd Darren Millar i ystyried faint o amser sydd ar gael i'r Aelodau i baratoi ar gyfer trafodion Cyfnod 2 a Chyfnod 3 ar Filiau yn dilyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau. Gofynnodd y Pwyllgor Busnes i swyddogion ddarparu nodyn am y materion hyn, i gynnwys profiad diweddar yn ymwneud â'r Bil Seilwaith (Cymru).

### 4.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Rhentwyr (Diwygio)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes â'r cais i ddiwygio'r terfyn amser i bwyllgorau adrodd ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) i 26 Ebrill 2024.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn gofyn am ganiatâd i gynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor

Cytunodd y Pwyllgor Busnes â'r cais i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gynnal cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor ar 14 Mawrth 2024.

## 6 Gwaith Gweithdrefnol

### 6.1 Rhannu Swydd Cadeirydd Pwyllgor: Cynigion Manwl

Dychwelodd y Pwyllgor Busnes at ystyried a ddylai fwrw ymlaen â thrafod Rhannu Swydd Cadeirydd Pwyllgor cyn toriad y Pasg, a swyddi gwag posibl cadeiryddion pwyllgorau a allai godi yn sgil y Prif Weinidog newydd yn penodi ei lywodraeth. Cytunodd mwyafrif ar y Pwyllgor Busnes bod angen cyfnod hwy o amser i roi ystyriaeth lawn i'r materion perthnasol.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i fwrw ymlaen â'r drafodaeth fanwl honno dros y misoedd nesaf, gan gydnabod na fyddai unrhyw newidiadau ar waith erbyn i unrhyw swydd wag godi yn dilyn toriad y Pasg.